Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen

**Clinic Road**
**Ynyswen**
**Treorci**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF42 6ED**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 257 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 206 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 21 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 21.3%) | 22.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 22.2%) | 4.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 12.27% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 03/06/2013 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 05/06/2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/12/2022 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol sy’n gyfeillgar, gofalgar a chefnogol. Maent yn ymfalchïo yn eu hysgol ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr ethos hyfryd sy’n bodoli. Mae eu hymddygiad yn dda iawn ac maent yn ymdrin ag eraill gyda pharch a chwrteisi canmoladwy. Un cryfder amlwg yw’r ffordd y mae’r staff yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig yn rhan allweddol o fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn siarad a chyfathrebu’n hyderus yn y Gymraeg mewn ystod o gyd-destunau amrywiol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd yn y ddwy iaith, eu medrau mathemategol a’u medrau digidol. Er hyn, yn gyffredinol, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd hyd eithaf eu gallu.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau diddorol ac ysgogol ar draws llawer o’r meysydd dysgu a phrofiad. Mae barn y disgybl yn rhan bwysig o’r broses gynllunio gweithgareddau, ac o ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymroi’n frwdfrydig i’w profiadau. Mae awyrgylch bositif yn y dosbarthiadau ac maent yn gymunedau dysgu gweithgar a phwrpasol. Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod addas o dechnegau addysgu effeithiol. Er hyn, mae tueddiad i ychydig o athrawon or-arwain y dysgu. Mae hyn yn cyfyngu ar allu’r disgyblion i gwblhau eu tasgau’n annibynnol. Yn ogystal, nid yw ychydig o athrawon yn sicrhau bod y tasgau a phrofiadau dysgu yn ddigon heriol i disgyblion bob amser.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn ar gyfer yr ysgol sydd yn seiliedig ar ddatblygu lles a medrau iaith Gymraeg y disgyblion. Mae hi’n rhannu’r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda phawb yng nghymuned yr ysgol. Mae arweinwyr canol yn cefnogi’r pennaeth yn effeithiol ac mae ymdeimlad cryf o gydweithio fel tîm ar draws yr ysgol. Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth gadarn o gryfderau’r ysgol a’r materion sydd angen eu gwella. Mae hi’n cael ei chefnogi gan lywodraethwyr sy’n gefnogol i weledigaeth a gwaith yr ysgol. Er hyn, nid yw’r corff llywodraethol yn ymgymryd â rôl ddigon cadarn ym mhrosesau hunanwerthuso’r ysgol. O ganlyniad, nid ydynt yn cefnogi’r ysgol yn ddigon effeithiol wrth adnabod cryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r mater iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Sicrhau lefel her briodol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau hyd orau eu gallu

A3 Darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A4 Sicrhau bod aelodau o'r corff llywodraethol yn cymryd rhan lawn mewn prosesau hunanwerthuso er mwyn cefnogi'r ysgol i adnabod yr holl gryfderau a meysydd i'w gwella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae bron bob disgybl yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau llafar Cymraeg a chymdeithasol sydd yn is na'r disgwyl ar gyfer eu hoed., Mae rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sydd yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae bron pob un yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn hynod effeithiol, gan gynnwys eu gallu i gymdeithasu yn effeithiol ag eraill.

Mae bron bob un disgybl ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau gwrando yn effeithiol. Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, maent yn dilyn cyfarwyddiadau staff ac yn ymateb i gwestiynau yn bwrpasol. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae bron pob un disgybl yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn feddylgar wrth wrando ar farn a syniadau ei gilydd yn aeddfed.

Mae safon llafaredd bron pob un disgybl yn datblygu yn dda yn y ddwy iaith. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa'n bwrpasol mewn sefyllfaoedd amrywiol. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn hyderus wrth ddewis ansoddeiriau wrth fynegi eu barn ar ganeuon Cymraeg cyfoes. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn sgwrsio'n fyrlymus ag oedolion a'i gilydd gan ddefnyddio Cymraeg safonol a brawddegau llawn, er enghraifft wrth egluro effaith plac ar y dannedd. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae medrau llafar bron bob disgybl yn parhau i ddatblygu'n dda. Ym mlynyddoedd uwch yr ysgol, maent yn cyfathrebu'n rhugl yn y ddwy iaith ac yn siarad yn hyderus mewn ystod o gyd-destunau, er enghraifft wrth i ddisgyblion blynyddoedd 4 a 5 ddadlau o blaid neu yn erbyn defnyddio papur lapio adeg y Nadolig.

Mae medrau darllen bron bob disgybl yn datblygu'n dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r ymarferion 'Blodyn Blendio' a charwsél darllen yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau darllen y disgyblion ieuengaf.  Erbyn Blwyddyn 2, maent yn darllen yn eglur gan ddangos mynegiant cynyddol ac yn talu sylw gofalus i'r ystod o atalnodi. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn darllen yn ddeallus gan amrywio goslef eu llais yn effeithiol a defnyddio technegau fel llithr ddarllen a strategaethau pwrpasol i ddyfalu ystyr geiriau anghyfarwydd, er enghraifft wrth ddarllen testun am Anne Frank.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar gan ddefnyddio gwahanol offer yn yr ardaloedd tu fewn a thu allan yn bwrpasol. Maent yn dechrau ffurfio llythrennau yn gywir ac yn cyfateb seiniau a llythrennau yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 3, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol at wahanol bwrpasau ar draws y cwricwlwm yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr i gymeriad o'u hoff lyfr gan ddefnyddio ansoddeiriau'n effeithiol. Erbyn Blwyddyn 5 a 6, maent yn cofnodi eu syniadau'n effeithiol ac yn dangos dealltwriaeth dda o nodweddion ffurfiau ysgrifennu amrywiol yn y ddwy iaith. Er enghraifft, maent yn defnyddio cwestiynau rhethregol ac iaith berswâd wrth ysgrifennu pamffled gwybodaeth am elusen ac wrth ysgrifennu blog am un o gemau Cymru yng nghystadleuaeth pêl-droed Cwpan y Byd.

O'u mannau cychwyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau mathemategol; er enghraifft, mae gan ddisgyblion Blwyddyn 1 ddealltwriaeth dda o rifau i fyny at 50. Maent yn adnabod siapiau 2D a 3D ac yn hyderus wrth ddidoli gwrthrychau bob dydd yn ôl y siapiau a'u priodweddau. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn gallu dyblu a haneru rhifau yn effeithiol gan ddefnyddio'r dull dosrannu. Maent yn adnabod darnau arian hyd at £1 ac yn hyderus wrth gyfrifo faint o newid a gânt ar ôl prynu pethau o'r siop. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae medrau rhif llawer ohonynt yn datblygu'n gadarn. Mae gan ddisgyblion Blwyddyn 6 ddealltwriaeth gadarn o ddulliau cyfrifo gan ddefnyddio'r 4 gweithred, maent yn cyfrifo canrannau o werthoedd yn effeithiol ac yn defnyddio cyfesurynnau i drawsfudo siapiau yn y 4 cwadrant. Mae'r disgyblion hŷn yn cael rhai cyfleoedd pwrpasol i gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth greu graff llinell a siart bar i gofnodi'r tywydd yn yr Aifft dros gyfnod o flwyddyn. Er hyn, cyfyngedig yw'r cyfleoedd ar draws yr ysgol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn rheolaidd mewn ystod o weithgareddau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Ym mlynyddoedd is yr ysgol, maent yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o offer digidol syml ac yn hyderus wrth gofnodi eu gwaith yn ddigidol yn yr ardaloedd mewnol ac allanol. Er enghraifft, mae disgyblion yn tynnu lluniau o'u gwaith gorffenedig gan ddefnyddio cyfrifiadur llechen cyn uwchlwytho i wefan, er mwyn rhannu eu gwaith â'u rhieni. Mae medrau digidol y rhan fwyaf o'r disgyblion ym mlynyddoedd uwch yr ysgol yn datblygu'n effeithiol. Maent yn defnyddio ystod eang o raglenni yn llwyddiannus, er enghraifft wrth greu rhaglenni mesur ffitrwydd trwy godio neu wrth ddefnyddio taenlen i greu map i gynrychioli pa wledydd oedd yn elynion i Brydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae llawer o ddisgyblion yn elwa o gyfleoedd pwrpasol i ddatblygu eu medrau creadigol ar draws yr ysgol; er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn ymateb yn dda a brwdfrydig wrth wneud ymarferion corfforol yn y neuadd. Mae Blwyddyn 6 wedi elwa o gael gweithdy drymio Affricanaidd i gyd-fynd â'u thema 'Antur yn Affrica' ac wedi cymysgu lliwiau yn annibynnol i greu effaith iasoer o hen dŷ i gyd-fynd â stori greadigol ar yr un testun. Fodd bynnag, mae'r gorddefnydd o dempledi a chyfarwyddiadau caeth yn llesteirio gallu'r disgyblion i ehangu eu medrau celf yn ddigon annibynnol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus yn yr ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni am unrhyw beth. Mae ystod eang o dechnegau hybu lles pwrpasol. Enghraifft dda yw'r defnydd effeithiol o'r cymeriadau lles fel 'Bela Becso' a 'Poli Pryderon', gyda llawer o disgyblion yn teimlo bod oedolion yn cymryd unrhyw bryderon sydd ganddynt o ddifri. Un o nodweddion cryf yr ysgol yw'r ffordd y mae'r disgyblion yn ymdrin â'i gilydd ac oedolion mewn modd hynod barchus a chwrtais y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. O ganlyniad, mae awyrgylch hyfryd yn treiddio drwy'r ysgol ac mae ymdeimlad cryf o fod yn un teulu mawr.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Trwy'r defnydd effeithiol o'r waliau cynllunio ymhob dosbarth, mae disgyblion yn rhannu eu

syniadau gan ychwanegu cwestiynau ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei ddarganfod ar ddechrau thema newydd. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod oedolion yn gwrando ar eu syniadau a'u hystyried wrth gynllunio'r gweithgareddau dysgu ar eu cyfer. Mae hyn yn effeithiol wrth sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd a diddordeb yn eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith heb adael i bethau eraill o fewn y dosbarth dynnu eu sylw. Lle cânt gyfleoedd pwrpasol, maent yn dangos gwydnwch wrth ymgymryd â heriau ac yn dyfalbarhau'n effeithiol wrth ddatrys anawsterau a chwblhau tasgau. Fodd bynnag, nid yw'r tasgau a ddarperir ar gyfer y disgyblion bob amser yn ddigon heriol, ac nid yw lleiafrif o athrawon yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatrys problemau'n annibynnol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i wneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain a gwneud dewisiadau ar y ffordd orau o ddysgu.

Mae mwyafrif o'r disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i ymateb i'r adborth ar eu gwaith gan staff a chyfoedion. O ganlyniad, maent yn gwybod beth yw'r camau nesaf er mwyn gwella rhai agweddau o'u gwaith. Fodd bynnag, nid yw adborth yr athrawon bob amser yn ddigon miniog nac yn cysylltu'n ddigon agos â gofynion penodol y tasgau. Oherwydd hyn, nid yw'r disgyblion yn rhoi sylw i wella gwir gynnwys eu gwaith.

Mae'r disgyblion sydd ar yr amryw bwyllgorau a grwpiau yn ymgymryd â'u rolau yn frwdfrydig. Er enghraifft, mae'r Ditectifs Lles wedi bod yn flaenllaw wrth ganfod barn disgyblion eraill am sut i wella amgylchedd yr ysgol. Gwnaethant hyn trwy annog disgyblion ar draws yr ysgol i lenwi holiaduron, cyn mynd ati i'w dadansoddi. Trwy hyn, mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn sied 'Ogof y Ddraig' sydd ar iard chwarae'r ysgol. O fewn y sied, mae disgyblion yn cael amser i drafod gydag oedolyn unrhyw fater sy'n eu pryderu. Mae disgyblion sydd yn y grŵp 'Cymry Cŵl' yn ddylanwadol iawn wrth hybu'r Gymraeg ar draws yr ysgol, gan gynnwys yn ystod amseroedd cinio ac egwyl. Trwy'r cyfleoedd hyn, mae'r disgyblion yn datblygu medrau arwain a chydweithio yn effeithiol. Maent yn cyfrannu'n bwrpasol tuag at flaenoriaethau gwella'r ysgol yn ogystal â blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o fwyta ac yfed yn iach, a deall effaith ymarfer corff ar eu hiechyd, yn datblygu'n effeithiol. Maent yn frwdfrydig a gweithgar yn ystod gwersi addysg gorfforol ac yn mwynhau cymryd rhan yn yr amrywiaeth o glybiau chwaraeon sydd ar gael, er enghraifft y clwb pêl-rwyd i'r disgyblion hŷn a'r clwb awyr agored 'Mega Mwdlyd' i ddisgyblion ieuengaf yr ysgol. Mae gan lawer o'r disgyblion hŷn wybodaeth gadarn am ddiogelwch ar-lein, er enghraifft ynglŷn â sut i osod cyfrinair cryf i gadw eu mannau gwaith digidol yn ddiogel a pha gamau i'w cymryd petai dieithryn yn cysylltu â nhw ar-lein.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Ar y cyfan, mae athrawon yn cynllunio'n bwrpasol i sicrhau bod bron bob disgybl yn mwynhau profiadau gwerthfawr sy'n datblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth. Mae gan y staff berthynas weithio dda â'r disgyblion. Maent yn meithrin amgylchedd ddysgu gadarnhaol a chefnogol, ac o ganlyniad, mae ymddygiad bron bob un disgybl yn dda. Maent yn gwrtais tuag at eraill ac yn trin oedolion â pharch.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn datblygu'n effeithiol. Mae athrawon yn cydweithio a chynllunio'n bwrpasol i ddarparu profiadau diddorol ac ysgogol sy'n cwmpasu llawer o'r meysydd dysgu yn gynhwysfawr. Mae pob aelod o staff yn fodelau rôl iaith effeithiol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar fedrau llafar Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r gweithgareddau dysgu yn effeithiol wrth gefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau llythrennedd a digidol ar draws yr ysgol yn llwyddiannus. Er enghraifft, o fewn eu themâu tymhorol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig at wahanol bwrpasau. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ysgrifennu llythyr i Siôn Corn yn nodi eu dymuniadau, tra bod y disgyblion hŷn yn ysgrifennu ffeil o ffeithiau am fywyd gwahanol bobl mewn cymdeithas oes yr hen Aifft. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn darparu digon o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent wrth ddatblygu eu medrau rhifedd.

Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion fod yn rhan o'r broses o gynllunio cyfeiriad eu dysgu. Mae'r waliau 'Llais y Disgybl' ym mhob dosbarth yn ysgogi'r disgyblion i gyfrannu eu syniadau at y gwaith cynllunio a beth yr hoffent ei ddarganfod. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn perchnogi'r themâu ac yn ymroi'n frwdfrydig i'w tasgau.

Mae llawer o'r athrawon yn cynllunio ymweliadau addysgol ysgogol i gyfoethogi ac atgyfnerthu'r dysgu o fewn y dosbarth. Er enghraifft, fel rhan o'r thema Cymru yn Oes y Tuduriaid, mae disgyblion Blynyddoedd 3 a 4 yn ymweld â'r plasdŷ lleol yn Llancaiach Fawr. Trwy'r ymweliad hwn, maent yn cael cyfleoedd cyfoethog i ddwysàu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fywyd pobl yn ystod y cyfnod. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion weithio ag artistiaid lleol a beirdd cenedlaethol, er enghraifft wrth greu murlun ar ochr tafarn leol. Mae'r murlun yn cynnwys darn o farddoniaeth a gyfansoddwyd gan y disgyblion yn y dafodiaith leol.

Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn elwa o brofiadau bwriadus yn ardaloedd allanol yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn manteisio ar gyfleoedd pwrpasol i ddatblygu eu medrau llafaredd a rhifedd wrth fesur a thrafod eu taldra yn y feddygfa sydd wedi ei lleoli yn y sied. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddisgyblion hŷn yr ysgol gael mynediad i'r ardaloedd tu allan i atgyfnerthu'r dysgu.

Mae'r addysgu yn dda mewn llawer o ddosbarthiadau. Ar ei orau, mae cyflwyniadau athrawon yn fyrlymus ac yn ysgogol gan ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau holi treiddgar sy'n effeithiol wrth adalw'r dysgu blaenorol a llywio cyfeiriad y dysgu yn bwrpasol. Maent yn modelu darnau o waith da sydd yn sbarduno trafodaethau pwrpasol ymysg y disgyblion ar gyfer gosod meini prawf llwyddiant miniog a phenodol ar gyfer y tasgau dysgu. Fodd bynnag, yn yr ychydig sesiynau lle nad yw'r addysgu mor effeithiol, mae oedolion yn gor-gyfarwyddo'r dysgu ac nid yw'r lefel her bob amser yn addas ar gyfer diwallu anghenion pob disgybl.

Mae llawer o athrawon yn cynnig adborth pwrpasol sy'n cefnogi'r disgyblion i fyfyrio ar eu tasgau a gwella eu gwaith yn hyderus. Fodd bynnag, nid yw'r adborth bob tro'n

ddigon penodol ar gyfer y gweithgareddau dysgu. O ganlyniad, nid yw lleiafrif y disgyblion yn rhoi sylw i wella'r agweddau mwyaf pwysig o'u gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo ymddygiad da, cwrteisi a pharch ar gyfer pob disgybl. Mae perthynas waith agos a chyfeillgar rhwng staff a disgyblion a chaiff hyn ei adlewyrchu yn agweddau positif bron bob un disgybl at holl fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r ysgol yn annog disgyblion i ymgymryd â rolau arwain er mwyn hybu amgylchedd diogel a hapus. Er enghraifft, mae disgyblion y cyngor ysgol wedi llunio polisi bwlio ac mae hyn wedi bod yn elfennol wrth hyrwyddo ymddygiad da ymysg bron bob un disgybl. Mae cyfleoedd priodol yn cael eu cynnig i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau. Er enghraifft, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gystadlu yn Eisteddfod y Rhondda a chystadlaethau chwaraeon amrywiol. Mae'r profiadau hyn yn effeithiol wrth ddatblygu hunanhyder llawer o ddisgyblion yn ogystal â'u gallu i gydweithio mewn tîm.

Trwy ystod dda o gyfleoedd pwrpasol, mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. O fewn y gwasanaethau ysgol gyfan, mae'r staff yn trafod gwerthoedd pwysig yr ysgol yn gyson a sut i fod yn ddinasyddion da o fewn y gymdeithas. Maent yn trafod hawliau plant yn aml a'r angen i drin pawb â pharch. Mae'r disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn achlysuron cenedlaethol, er enghraifft drwy godi arian ar gyfer elusen Plant Mewn Angen a mynychu'r ysgol yn eu pyjamas fel rhan o'r ymgyrch. Ym mlynyddoedd hŷn yr ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd, er enghraifft wrth greu ffilm fer i ddangos sut mae'r ysgol yn gweithio i leihau ei hôl droed carbon.

Mae'r ysgol yn rhoi ffocws pendant ar gefnogi lles disgyblion, gan gynnwys eu hanghenion emosiynol a'u hiechyd meddwl. Mae'r staff yn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad effeithiol at ystod o raglenni priodol sy'n eu helpu i ymdrin â'u theimladau ac emosiynau. Techneg hynod effeithiol sy'n cael ei ddefnyddio yn ddyddiol gan y disgyblion er mwyn rhannu eu teimladau a phryderon yw'r gofrestr lles. Drwy hyn, mae'r athrawon yn llwyddo i ymateb i bryderon unrhyw ddisgybl mewn ffordd sensitif ar gychwyn y diwrnod ysgol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda ag asiantaethau amrywiol yn ôl yr angen er mwyn ceisio gwella ymddygiad ac anawsterau cymdeithasol ychydig iawn o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth pwrpasol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Maent yn cydweithio'n effeithiol ag ystod eang o asiantaethau allanol er mwyn cyflawni hyn. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wahanol ymyraethau pwrpasol sy'n llwyddiannus wrth sicrhau bod bron bob disgybl ag ADY yn gwneud cynnydd da yn eu medrau dros amser. Mae'r athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio'n ddiwyd i olrhain cynnydd y disgyblion yn gyson. Maent yn sicrhau bod gan bob disgybl dargedau penodol sy'n cael eu hadolygu a'u gwerthuso'n gyson. Maent yn cynnwys y rhieni'n bwrpasol yn nhrafodaethau cynnydd eu plant. Trwy gynnal sesiynau cefnogaeth i rieni o fewn yr ysgol, mae'r staff yn rhoi hyfforddiant buddiol iddynt. Mae hyn yn effeithiol wrth alluogi rhieni i gefnogi

datblygiad medrau llythrennedd eu plant yn y cartref. Trwy'r cydweithio effeithiol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd cadarn dros amser.

Mae gan y staff ymwybyddiaeth gadarn o brosesau diogelu ac mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i unrhyw achosion unigol, gan gydweithio ag asiantaethau eraill yn effeithiol, lle bo'n briodol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i ymateb i unrhyw achosion o fwlio. Mae staff yn cadw cofnod o unrhyw achosion, ac yn monitro'n gyson a chynnal trafodaethau â'r disgyblion a rhieni. Yn ystod yr arolygiad, cyfeiriwyd yr arweinwyr at bryder iechyd a diogelwch.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer sicrhau presenoldeb cyson disgyblion yn gadarn. Mae'r staff yn cadw cofnodion priodol o achosion o absenoldeb ac yn cysylltu â rhieni yn amserol i drafod unrhyw bryderon ynglŷn â phresenoldeb eu plant. Gwneir defnydd effeithiol o wasanaethau allanol i gefnogi hyn.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddatblygu lles disgyblion o fewn amgylchedd cynhwysol a chyfeillgar. Mae hi'n cael ei chefnogi'n effeithiol gan arweinwyr canol sy'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda'r disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni. Mae pwyslais cryf yn bodoli ar ddatblygu'r Gymraeg a diwylliant Cymreig ymysg y disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddealltwriaeth a defnydd y disgyblion o'r iaith Gymraeg ar draws yr ysgol.

Mae'r arweinwyr canol yn effeithiol wrth gefnogi'r pennaeth ac wrth sicrhau bod yr ymdeimlad o waith tîm yn gryf ar draws yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn gyfrifol am agweddau penodol ar waith yr ysgol ac yn cyfrannu'n bwrpasol at sicrhau bod bron bob un disgybl, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol a rhai o gefndiroedd difreintiedig, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau dros amser. Mae cynlluniau cadarn ar waith i ddatblygu medrau llafar Cymraeg, darllen ac ysgrifennu disgyblion. Er hyn, nid oes digon o bwyslais ar ddatblygu medrau rhifedd disgyblion yn gyson a phwrpasol ar draws yr ysgol.

Mae'r arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Mae pob aelod o staff yn cael cyfleoedd cyson i fynychu cyrsiau a hyfforddiant sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'u hanghenion unigol a blaenoriaethau strategol yr ysgol. Maent yn rhannu syniadau ac arferion gorau gyda'i gilydd yn bwrpasol ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at ethos yr ysgol fel sefydliad sy'n dysgu. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ar gyfer perfformiad y staff a hi ei hun. Mae gan bob aelod o staff dargedau gwella sy'n cysylltu'n agos â'r cynllun gwella a'u blaenoriaethau datblygiad proffesiynol. Mae'r cynnydd yn erbyn yr rhain yn cael eu gwerthuso'n dymhorol ac mae perfformiad athrawon yn cael ei fonitro'n gyson gan y pennaeth. Mae'r pennaeth yn herio perfformiad yr ysgol yn gyson ac yn edrych ar ffyrdd i wella'n barhaus. O ganlyniad, mae gan yr ysgol hanes o wella cyson dros gyfnod.

Mae gan y pennaeth ac arweinwyr canol ddealltwriaeth gadarn o brif gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn defnyddio ystod o weithgareddau pwrpasol ar gyfer arfarnu safonau ac addysgu gan gynnwys monitro cynllunio'r athrawon a chraffu ar lyfrau disgyblion. Yn ddiweddar, mae'r pennaeth wedi

ailgychwyn arsylwadau gwersi mwy ffurfiol. Mae hyn wedi bod yn effeithiol wrth adnabod yr angen i wella rhai agweddau penodol o safonau'r disgyblion, gan gynnwys medrau ysgrifennu lleiafrif y disgyblion ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, er bod gan arweinwyr ddarlun cynhwysfawr o ansawdd agweddau penodol o'r addysgu, er enghraifft yr angen i sicrhau lefel her briodol i bob disgybl, nid yw elfennau o'r ddarpariaeth wedi eu gwella yn ddigonol hyd yn hyn.

Mae'r corff llywodraethol yn derbyn adroddiadau priodol yn dymhorol gan y pennaeth sy'n canolbwyntio ar y cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau o fewn y cynllun gwella. O fewn eu cyfarfodydd tymhorol, maent yn herio rhai elfennau o'r adroddiadau gan ofyn cwestiynau pwrpasol sy'n gysylltiedig â safonau disgyblion a'r ddarpariaeth er mwyn eu cefnogi i wneud cynnydd yn eu medrau. Fodd bynnag, ers cyfnod y pandemig COVID-19, nid yw'r corff wedi cymryd rhan ddigon cadarn ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol. O ganlyniad, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon cynhwysfawr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod diwylliant o ddiogelu disgyblion yn flaenllaw yn yr ysgol. Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth gadarn o weithdrefnau diogelu. Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach; er enghraifft, mae disgyblion yn cael eu hannog i fwyta ffrwyth ac yfed dŵr yn ystod y dydd.

Mae arweinwyr yr ysgol yn meithrin perthynas gynhyrchiol â theuluoedd a chymuned ehangach yr ysgol i wella cyfleoedd bob disgybl mewn bywyd. Mae gan yr ysgol linellau cyfathrebu effeithiol â nhw er mwyn iddynt allu codi unrhyw faterion a all effeithio ar ddysgu a lles eu plentyn.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/02/2023